Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Cymry Ifanc
Young Wales

www.cymru.gov.uk

# Manteisio i’r eithaf ar asesu 7–14









## Canllawiau

Dogfen canllawiau Rhif: 034/2010
Dyddiad cyhoeddi: Ebrill 2010

# Manteisio i’r eithaf ar asesu 7–14

| | |
|---|---|
| **Cynulleidfa** | Pob ysgol gynradd, uwchradd ac arbennig a gynhelir yng Nghymru; sefydliadau hyfforddi ac addysgu athrawon; awdurdodau lleol; undebau athrawon a chyrff cynrychioli ysgolion; awdurdodau esgobaethol eglwysi; cyrff cenedlaethol yng Nghymru ac eraill sydd â diddordeb mewn addysg. |
| **Trosolwg** | Mae’r ddogfen hon yn rhoi canllawiau ar gyflawni aliniad rhwng asesu **ar gyfer** dysgu ac asesu’r dysgu **ei hun**. Mae’n cynnig egwyddorion cyffredinol ar gyfer manteisio i’r eithaf ar y dibenion asesu gwahanol hyn er mwyn gwella: deilliannau dysgwyr (cyrhaeddiad a lles), effeithiolrwydd ysgolion unigol a gwella’r drefn addysg yn gyffredinol. |
| **Camau i’w cymryd** | Anogir timau arwain ysgolion, athrawon dosbarth ac awdurdodau lleol i ddefnyddio’r adnodd hwn i’w cefnogi wrth werthuso pwrpas ac effeithiolrwydd parhaus eu polisïau a’u gweithdrefnau eu hunain. |
| **Rhagor o wybodaeth** | Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:<br>Yr Is-adran Cwricwlwm ac Asesu<br>Yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau<br>Llywodraeth Cynulliad Cymru<br>Parc Cathays<br>Caerdydd<br>CF10 3NQ<br><br>Ffôn: 029 2082 5751<br>e-bost: C&A3-14.C&A3-14@cymru.gsi.gov.uk |
| **Copïau ychwanegol** | Ceir copi o’r ddogfen hon ar wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru www.cymru.gov.uk/addysgasgiliau |
| **Dogfennau cysylltiedig** | *Trefniadau asesu statudol ar gyfer y flwyddyn ysgol 2009/10* (Cynradd a Chyfnod Allweddol 3); *Casglu Data Cenedlaethol a Threfniadau Adrodd 2009/10* (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2009); *Sicrhau cysondeb mewn asesiad athrawon: Canllawiau ar gyfer Cyfnodau Allweddol 2 a 3*; *Manteisio i’r eithaf ar ddysgu: Gweithredu’r cwricwlwm diwygiedig*; *Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion: Creu cymunedau dysgu effeithiol gyda’n gilydd* (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2008) |

Cyf: CAD/GM/0134
© Hawlfraint y Goron Ebrill 2010

# Cynnwys

**Rhagair** **2**

**Cyflwyniad** **3**

Egwyddorion cyffredinol sy’n sail i systemau asesu effeithiol 5

Mathau o wybodaeth asesu 6

Pa mor aml y dylid asesu a chofnodi 7

**Prif ddefnyddiau gwybodaeth asesu** **8**

Mewn gwersi fel cymorth i ddatblygu sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth pob dysgwr 8

Monitro a thracio cynnydd dysgwyr o fewn cyfnodau/camau allweddol addysg a thrwyddyn nhw 9

Adrodd ar gyrhaeddiad dysgwyr a’u cyflawniad ehangach i rieni/gofalwyr ac athrawon/ysgolion sy’n derbyn 11

Darparu gwybodaeth reoli, i lywio’r gwaith o wneud penderfyniadau, ar gyfer arweinwyr, rheolwyr a llywodraethwyr ysgolion 12

Fel tystiolaeth am berfformiad mewn ac ar draws ysgolion ar gyfer awdurdodau lleol, Llywodraeth Cynulliad Cymru a’r gymuned ehangach 13

# Rhagair

Mae asesu effeithiol a'r systemau sy'n sail iddo, yn allweddol i ddysgu ac addysgu o ansawdd uchel, ac i ysgolion llwyddiannus.

Noda adroddiadau Estyn yr arfer da sy'n digwydd mewn amryw o'n hysgolion. Er hynny, mae angen i ni gyd – ysgolion, awdurdodau lleol a'r llywodraeth – wneud mwy wrth i ni geisio gwella deilliannau ar gyfer pob dysgwr.

Mae'r cyhoeddiad newydd hwn yn cyfrannu at y nod hynny. Mae'n cynnig egwyddorion cyffredinol ar gyfer manteisio i'r eithaf ar y dibenion asesu gwahanol hyn; ar gyfer gwella deilliannau cyrhaeddiad a lles dysgwyr, ar gyfer effeithiolrwydd ysgolion unigol ac ar gyfer gwella'r drefn addysg yn gyffredinol.

Ffrwyth trafodaethau gydag ysgolion, awdurdodau lleol ac undebau athrawon yw'r canllawiau hyn. Mae'n cynrychioli ystod eang o farn ac yn dwyn consensws eang ynghyd sy'n adlewyrchu polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer effeithiolrwydd ysgolion a'r arferion gorau o'r dosbarthiadau a'r ysgolion mwyaf effeithiol ar draws Cymru gyfan.

Felly mae *Manteisio i'r eithaf ar asesu 7–14* yn amserol ac yn addas i ddiwallu anghenion timau arwain ysgol, athrawon dosbarth ac awdurdodau lleol. Rwy'n argymell y canllaw i chi a hyderaf y byddwch yn ei groesawi a'i ddefnyddio.

**David Hawker**
**Cyfarwyddwr Cyffredinol**
**Yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau**

Mantesio i'r eithaf ar asesu 7–14

Ebrill 2010

Dogfen canllawiau
Rhif: 034/2010

# Cyflwyniad

Yng Nghymru, rydym am fanteisio i'r eithaf ar asesu **ar gyfer** dysgu ac asesu'r dysgu **ei hun**. Dylai'r ddwy agwedd ar asesu fynd i'r un cyfeiriad. Mae angen i ysgolion gysoni'r gorau o'r ddwy i wella deilliannau dysgu i bob dysgwr ac effeithiolrwydd yr ysgol yn gyffredinol. Mae'r llyfryn hwn yn rhoi canllawiau ar sut i gyflawni hynny.

Nod y Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion (FfEY) yw sicrhau bod y system addysg gyfan (ar lefel ysgol, awdurdod lleol a chenedlaethol) yn fwy effeithiol; gan roi'r cychwyn gorau posibl i blant a phobl ifanc. Dylai'r holl bolisïau a systemau asesu mewn ysgolion ac awdurdodau lleol fod yn gyson â'r Themâu Craidd a'r Elfennau a amlinellir yn y FfEY.

### Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion

Mae'r canllawiau hyn yn canolbwyntio ar Gyfnodau Allweddol 2 a 3 ar gyfer addysg y brif ffrwd ac addysg arbennig. Ei nod yw adeiladu ar y Cyfnod Sylfaen a'r defnydd o wybodaeth asesu wrth bontio i Gyfnod Allweddol 2. Yn yr un modd, mae defnydd da o wybodaeth asesu yng Nghyfnod Allweddol 3 yn cefnogi ysgolion wrth iddyn nhw arwain dysgwyr ôl-14, i osod targedau sy'n briodol o ran her ac i fanteisio i'r eithaf ar ychwanegu gwerth ar gyfer dysgwyr.

Mae'r llyfryn hwn yn amlinellu egwyddorion cyffredinol i arwain trefn asesu effeithiol ac yn disgrifio defnydd da o wybodaeth asesu:

- mewn gwersi fel cymorth i ddatblygu sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth pob dysgwr
- monitro a thracio cynnydd dysgwyr o fewn cyfnodau/camau allweddol addysg a thrywddyn nhw
- adrodd ar gyrhaeddiad dysgwyr a'u cyflawniad ehangach i rieni/gofalwyr ac athrawon/ysgolion sy'n derbyn
- darparu gwybodaeth reoli, i lywio'r gwaith o wneud penderfyniadau, ar gyfer arweinwyr, rheolwyr a llywodraethwyr ysgolion
- fel tystiolaeth am berfformiad mewn ac ar draws ysgolion ar gyfer awdurdodau lleol, Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r gymuned ehangach.

Mantesio i'r eithaf ar asesu 7–14

Ebrill 2010

Dogfen canllawiau Rhif: 034/2010

Mae'r canllawiau newydd yn ategu cyhoeddiadau Llywodraeth Cynulliad Cymru sydd eisoes ar gael, gan gynnwys:

- llyfrynnau blynyddol ar asesiadau ac adroddiadau statudol athrawon, a'r broses o gasglu data cenedlaethol

  *Trefniadau asesu statudol ar gyfer y flwyddyn ysgol 2009/10*

  *Casglu Data Cenedlaethol a Threfniadau Adrodd 2009/10*

- canllawiau anstatudol

  *Manteisio i'r eithaf ar ddysgu: Gweithredu'r cwricwlwm diwygiedig* (2008)

  *Sicrhau cysondeb mewn asesiad athrawon: Canllawiau ar gyfer Cyfnodau Allweddol 2 a 3* (2008).

Nod y canllawiau hyn yw cynorthwyo ysgolion ac awdurdodau lleol pan fyddan nhw'n myfyrio ar eu polisïau a'u gweithdrefnau eu hunain.

Dylai ysgolion ac awdurdodau lleol sicrhau bod eu trefniadau yn:

- cynorthwyo dysgwyr ac athrawon i gyflawni deilliannau addysgu a dysgu o ansawdd uchel
- cynhyrchu gwybodaeth ddibynadwy a phwrpasol
- bodloni gofynion cenedlaethol a lleol
- hylaw ac yn gynaliadwy
- cael eu hadolygu a'u gwerthuso'n rheolaidd.

## Egwyddorion cyffredinol sy'n sail i systemau asesu effeithiol

Er y gellir asesu mewn sawl gwahanol ffordd, cynorthwyo dysgwyr i wella eu dysgu ddylai fod y prif reswm am yr holl wybodaeth asesu. Mae yna dystiolaeth sylweddol, gan gynnwys yr hyn a nodwyd yn adroddiadau blynyddol mwyaf diweddar Estyn (www.estyn.gov.uk), o'r cyfraniad manteisiol gellir ei wneud wrth ddefnyddio gwybodaeth gyson o ansawdd da i hybu gwelliant o lefel y dysgwr hyd at lefel y system gyfan.

Dylai'r wybodaeth mae asesu yn ei chreu ddarparu iaith gyffredin ar gyfer trafod cynnydd a gwelliant. Dylai fod yn ddibynadwy a phwrpasol. Rhaid i wybodaeth asesu ddefnyddiol fod yn ddilys, yn ddibynadwy, yn hylaw ac yn ystyrlon i athrawon, dysgwyr a chynulleidfaoedd eraill.

Dylai systemau asesu ysgolion gynnwys a defnyddio gwybodaeth ar wahanol ffurfiau, gan gydnabod bydd gan wahanol gynulleidfaoedd wahanol anghenion o ran gwybodaeth. Mae systemau asesu effeithiol yn gwneud defnydd da o wybodaeth ansoddol (sylwadau athrawon a dysgwyr) a meintiol (megis deilliannau lefel, data arall ar ffurf rhifol sy'n deillio o asesiadau).

Dylai asesu mewn ysgol, ac ar draws clystyrau cynradd/uwchradd a theuluoedd o ysgolion, gael ei gynllunio i ddarparu gwybodaeth resymegol. Mae angen i bawb dan sylw rannu dealltwriaeth gyffredin fel gallan nhw ddehongli a defnyddio gwybodaeth yn gyson ar draws pynciau a grwpiau blwyddyn. Nod gofynion asesu statudol yw cynorthwyo i sicrhau bod asesiadau athrawon yn gyson yn fewnol ac wedi'u cysoni ar draws ysgolion.

Rhaid i'r broses o asesu **ar gyfer** dysgu gydweddu â'r broses o asesu'r dysgu **ei hun**, a'r wybodaeth ar gyfer arweinyddiaeth strategol a rheoli'r ysgol gyfan effeithiol. Mae hyn yn allweddol i wella ysgolion ac i'r gwasanaeth mae ysgolion yn ei gynnig i ddysgwyr. Mae angen sicrhau cydbwysedd gofalus. Bydd gorbwysleisio un ar draul y llall, yn sicr o fod yn wrthgynhyrchiol.

## Mathau o wybodaeth asesu

Mae gan wahanol gynulleidfaoedd ddiddordeb ac angen am wybodaeth sy'n deillio o asesu – dysgwyr, rhieni/gofalwyr, athrawon, cynorthwywyr addysgu (a gweithwyr proffesiynol eraill sy'n gysylltiedig â'r broses ddysgu), rheolwyr a llywodraethwyr ysgolion, awdurdodau lleol a Llywodraeth Cynulliad Cymru. Gall gwybodaeth ar ffurf arbennig fod yn berthnasol ac yn briodol i un gynulleidfa ond yn llawer llai felly i un arall.

Mae asesu ar gyfer dysgu yn creu amrywiaeth o wybodaeth ansoddol am ddysgwyr unigol sy'n fwyaf ystyrlon a defnyddiol i ddysgwyr, eu rhieni/gofalwyr, ac i athrawon fel cymorth i gynllunio'r camau nesaf. Dylai'r wybodaeth ansoddol hon gynnwys sylwadau athrawon ar waith dysgwyr ac asesu gan gyfoedion a hunanasesu gan ddysgwyr. Bydd gwybodaeth o'r fath yn sail i asesu parhaus gan yr athrawon yn yr ystafell ddosbarth/amgylcheddau dysgu cyfatebol ac o fewn cyfnod allweddol, ac yn llywio adroddiadau i rieni/gofalwyr ar ddiwedd pob blwyddyn.

Wrth asesu'r dysgu ei hun, bydd angen ei gofnodi'n ffurfiol, at ddibenion cynllunio strategol, arweinyddiaeth ac atebolrwydd yn ogystal ag ar gyfer dysgwyr unigol a'u rhieni neu ofalwyr. Dylai ddarparu tystiolaeth ar lefel unigolion, dosbarth cyfan, carfan ac ysgol. Mae gwybodaeth grynodol o'r fath yn cynnwys data ar ffurf rhifol neu ar ffurf cod i ddangos perfformiad a newid perthynol dros amser.

Dylai asesiadau athrawon ar ddiwedd cyfnod allweddol dynnu ar yr holl dystiolaeth gyfredol a dilys. Rhaid cynnwys barn grynodol, 'cyd-fynd orau' am berfformiad dysgwr mewn perthynas â disgrifiadau lefel y cwricwlwm cenedlaethol. Ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2, mae hynny'n cynnwys y pynciau craidd sef Cymraeg, Cymraeg ail iaith, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth. Ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3, mae hynny'n cynnwys y pynciau craidd a'r pynciau allgraidd.

## Pa mor aml y dylid asesu a chofnodi

Mae pwrpas yr asesiadau a'r hyn y bwriedir ei wneud â nhw'n benderfyniadau allweddol am beth a phryd mae athrawon ac ysgolion yn asesu ac yn ei gofnodi.

Mewn ystafelloedd dosbarth ac amgylcheddau dysgu cyfatebol, dylid ystyried cynnydd dysgwr yn aml a bydd, i raddau helaeth yn anffurfiol ei naws. Bydd athrawon a dysgwyr yn defnyddio'r wybodaeth hon o ddydd i ddydd.

O fewn cyfnod neu gam allweddol, dylai systemau ysgolion ar gyfer adolygu a chofnodi cyrhaeddiad dysgwyr unigol greu gwybodaeth ar gyfer dysgwyr, athrawon a rheolwyr ysgol. Dylai ysgolion sicrhau bod asesu o'r fath yn seiliedig ar amrediad o dystiolaeth berthnasol. Dylen nhw sicrhau bod cyfnod priodol o amser wedi mynd heibio ers yr adolygiad blaenorol o gynnydd y dysgwyr. Wrth benderfynu pryd i gynnal adolygiad cyfnodol o'r fath, dylid ystyried nifer y dysgwyr mae angen i athrawon eu hasesu a'r ffaith bod amser cyswllt athrawon â'r dysgwyr yn amrywio o bwnc i bwnc. Dylai ysgolion ofalu nad ydyn nhw'n monitro ac yn cofnodi'n ffurfiol yn rhy aml er mwyn osgoi cael effaith negyddol ar addysgu, dysgu a pha mor ymarferol yw'r broses yn gyffredinol.

Mae'r gofynion statudol ar gyfer cyflwyno adroddiadau blynyddol i rieni/gofalwyr yn amlinellu'r trefniadau dylai ysgolion eu dilyn ar ddiwedd pob blwyddyn ysgol.

Mae'r gofynion statudol ar gyfer asesu diwedd pob cyfnod allweddol yn amlinellu sut dylai athrawon adrodd yn ôl ar sail deilliannau/lefelau'r cwricwlwm cenedlaethol. Rhaid defnyddio'r canlyniadau hyn hefyd ar gyfer casglu data cenedlaethol. Yn ogystal â'r wybodaeth fanwl a geir mewn asesiadau athrawon am ddysgwyr unigol, hon ddylai fod y brif sail dystiolaeth i ysgolion sy'n derbyn pan fydd dysgwyr yn trosglwyddo.

Ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol, bydd asesiad yr athro/athrawes yn cyfateb yn agos â'r targedau a gynlluniwyd i gwrdd ag anghenion unigol y dysgwyr. Mae sgiliau traws gwricwlaidd, trosglwyddadwy y dysgwyr hyn yn debygol o ffurfio rhan arbennig o gryf o asesiad yr athro/athrawes. Yn ystod gwanwyn 2010, darparodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ganllawiau newydd sy'n dwyn y teitl *Cwricwlwm i bob dysgwr: Canllawiau i gynorthwyo athrawon dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol* ar gyfer ysgolion arbennig ac unedau arbennig o fewn ysgolion prif ffrwd.

# Prif ddefnyddiau gwybodaeth asesu

## Mewn gwersi fel cymorth i ddatblygu sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth pob dysgwr

Mewn ystafelloedd dosbarth, asesu ar gyfer dysgu ddylai sbarduno'r asesu o ddydd i ddydd. Bydd yr asesu hwn yn digwydd yn aml a bydd, i raddau helaeth, yn anffurfiol ei naws. Bydd yn gweithredu fel rhan o 'sgwrs ddysgu', i gynorthwyo pob dysgwr i ddatblygu dealltwriaeth am ei gynnydd/chynnydd ei hun.

Yr hyn sydd wrth wraidd asesu ar gyfer dysgu yw'r broses o ddarganfod lle mae dysgwyr o fewn y continwwm dysgu, ble mae angen iddyn nhw fynd a beth yw'r ffordd orau o gyrraedd yno.

Mae angen i ddysgwyr unigol:

- wybod ble maen nhw yn ei dysgu ar unrhyw adeg
- deall a chytuno ble mae angen iddyn nhw gyrraedd nesaf
- deall sut mae cyrraedd y cam hwnnw o'r daith.

Wrth bennu targedau ar gyfer 'camau nesaf' o'r fath, dylid:

- sicrhau bod dysgwyr yn cymryd rhan weithredol trwy gytuno ar eu targedau unigol
- sicrhau eu bod yn deall sut gallan nhw gyrraedd y targedau hynny
- tanlinellu pwysigrwydd hunanasesu yn ogystal ag asesiadau athrawon.

Mae asesu ar gyfer dysgu yn gweithio orau lle mae ysgolion yn seilio'u hymarfer ar ddulliau dysgu cadarn; a darparu gwybodaeth ystyrlon i bob dysgwr am gyrhaeddiad a chyflawniad ehangach. Mae'r ysgolion hyn yn gweithio'n galed i ddatblygu perthynas gadarn, llawn ymddiriedaeth rhwng ymarferwyr a dysgwyr o fewn amgylchedd diogel, sy'n golygu y gellir trafod cryfderau a meysydd i'w datblygu yn agored ac yn hyderus. Mae gan athrawon amrywiaeth eang o strategaethau a thechnegau addysgu maen nhw'n eu defnyddio i sicrhau cynnydd. Mae ganddyn nhw afael dda ar y broses ddysgu fel y gallan nhw gynnig llwybrau priodol i ddysgwyr unigol neu grwpiau o ddysgwyr. Mae'r ymarfer o fyfyrio, sy'n cynnwys dadansoddi a dehongli deilliannau, gwerthuso cyflawniad a nodi meysydd i'w gwella, yn werthfawr i athrawon a dysgwyr.

Mae ymchwil yn dangos bod adborth ansoddol yn gwella hunan-barch a hunanhyder dysgwyr, gan ddylanwadu ar ba mor gyflym maen nhw'n datblygu ac yn ychwanegu at eu hymdeimlad o les cyffredinol. Mae adborth o'r fath yn annog dysgwyr i asesu'u perfformiad eu hunain yn rheolaidd.

Mae angen i athrawon sicrhau bod ganddyn nhw ffordd ymarferol o gofnodi cynnydd pob dysgwr. Yn y rhan fwyaf o bynciau, y ffordd orau o wneud hyn yw rhoi sylwadau ar waith y dysgwyr, er mwyn rhoi darlun clir o ddatblygiad eu sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth. Mae hefyd yn gyfle i ddangos y camau nesaf a drafodwyd a pha mor dda mae dysgwyr wedi gweithio tuag at y camau nesaf hyn, gyda chymorth neu hebddo.

## Monitro a thracio cynnydd dysgwyr o fewn cyfnodau/camau allweddol addysg a thrwyddyn nhw

### Targedau blynyddol

Mae'n ofynnol i ysgolion gyhoeddi eu targedau ar gyfer cyrhaeddiad diwedd cyfnod allweddol ar gyfer carfannau o ddysgwyr bob blwyddyn. Dylai'r targedau hyn ar lefel ysgol fod yn seiliedig ar ddeilliannau llawn her ond yn rhai gall dysgwyr unigol eu cyflawni, mewn perthynas â'r lefelau pwnc y disgwylir iddyn nhw eu cyflawni ar ddiwedd y cyfnod allweddol.

Mae tystiolaeth o asesu'r dysgu ei hun yn cynorthwyo ysgolion ac awdurdodau lleol i roi amcan o berfformiad dysgwyr, wrth iddyn nhw fynd drwy Gyfnodau Allweddol 2 a 3 a thuag at ddiwedd Cyfnod Allweddol 4. Mae'r rhagolygon hyn ar lefel dysgwyr yn ddefnyddiol wrth bennu targedau ar gyfer dysgwyr unigol, sefydliadau a'r system gyfan.

Mae'n bwysig i ysgolion, wrth hunanwerthuso, ystyried deilliannau gwirioneddol carfannau o'u cymharu â'r targedau, a chymryd camau i nodi ac ymateb i'r rhesymau sy'n sail i unrhyw amrywiad rhwng y ddau.

### Defnydd o ddeilliannau a disgrifiadau lefel y cwricwlwm cenedlaethol

Mae deilliannau a disgrifiadau lefel y cwricwlwm cenedlaethol wedi'u llunio fel bod modd dod i farn sy'n 'cyd-fynd orau' am gyrhaeddiad dysgwyr ar ôl cyfnod sylweddol o addysgu a dysgu, h.y. ar ddiwedd pob cyfnod allweddol fel arfer. Os yw ysgolion yn eu defnyddio ar gyfer monitro a thracio cynnydd dysgwyr dros gyfnodau byrrach, mae angen cymryd gofal i osgoi ffocws amhriodol, cul i'r wybodaeth asesu. Er enghraifft, ni ddylid rhoi lefel i ddarnau unigol o waith, er eu bod, o bosibl, yn dangos nodweddion un neu fwy o ddisgrifiadau lefel.

Dylai ysgolion osgoi graddio datganiadau pob disgrifiad lefel o ran ei bwysigrwydd canfyddiedig a/neu roi is-lefel ar sail nifer penodol o ddatganiadau y mae'r dysgwyr wedi'u dangos yn ei waith/gwaith. Yn yr un modd, wrth ddylunio a chynllunio'r lefelau, ni fwriadwyd iddyn nhw gael eu hisrannu'n fympwyol. Dylai ysgolion hefyd osgoi datgymalu'r disgrifiadau'r cwricwlwm cenedlaethol oherwydd bod yna berygl anorfod wedyn na fyddan nhw'n gyson â'r safonau cenedlaethol.

Fodd bynnag, er mwyn cydnabod cynnydd o fewn cyfnod allweddol, gallai barn sy'n 'cyd-fynd orau' ddefnyddio nodweddion disgrifiadau lefel cyfagos i nodi a yw dysgwr yn gweithio ar waelod, yn ddiogel oddi mewn, neu ar frig deilliant/lefel y cwricwlwm cenedlaethol. Yn nodweddiadol, gall dysgwyr ar waelod deilliant/lefel ddangos nodweddion y deilliant/lefel honno yn bennaf ar draws ystod o waith, ond eto i gyd efallai bydd rhai o nodweddion y deilliant/lefel flaenorol i'w gweld mewn rhai agweddau ar y gwaith. Bydd dysgwr sy'n ddiogel o fewn y deilliant/lefel yn dangos nodweddion y deilliant/lefel honno ar draws ystod o waith. Bydd dysgwr ar frig deilliant/lefel yn dangos nodweddion y lefel honno yn glir ar draws ystod o waith gyda rhai enghreifftiau o nodweddion y deilliant/lefel nesaf. Gall ysgolion arbennig ac ysgolion prif ffrwd ddefnyddio barn sy'n 'cyd-fynd orau' o'r fath i rannu gwybodaeth am ddysgwyr unigol, o fewn ysgolion a rhyngddyn nhw.

Ar ddiwedd cyfnod allweddol rhaid adrodd ar gyrhaeddiad dysgwyr, gan nodi'r deilliant/lefel gyfan fwyaf priodol. Rhaid cofnodi pob cyrhaeddiad fel ei bod ar lefel benodol, hyd yn oed os yw ar waelod y deilliant/lefel, yn ddiogel oddi mewn iddi neu ar ei brig.

Mae pwysigrwydd 'cyd-fynd orau' yn gymwys wrth asesu pob dysgwr. Wrth ddefnyddio 'cyd-fynd orau' gall athrawon ystyried tystiolaeth berthnasol, sy'n cwmpasu sgiliau trosglwyddadwy yn ogystal â gwybodaeth a dealltwriaeth. Dylai rheolwyr ysgol sicrhau fod pob athro/athrawes yn deall y cysyniad 'cyd-fynd orau' ac yn ei ddefnyddio'n gyson.

## Adrodd ar gyrhaeddiad dysgwyr a'u cyflawniad ehangach i rieni/gofalwyr ac athrawon/ysgolion sy'n derbyn

Mae'n rhesymol bod gan ddysgwyr a'u rheini/gofalwyr ddiddordeb mewn cael gwybodaeth yn rheolaidd am gynnydd a chyrhaeddiad unigol. Mae canllawiau blynyddol gan APADGOS yn nodi'r gofynion sylfaenol ar gyfer adrodd i rieni/gofalwyr. Mae gan ysgolion unigol hyblygrwydd i benderfynu ar unrhyw drefniadau ychwanegol tu hwnt i'r gofynion statudol.

Y gofyniad statudol o fewn cyfnod allweddol yw bod yn rhaid i ysgolion roi adroddiad blynyddol i rieni/gofalwyr. Rhaid darparu o leiaf fanylion cryno ar gynnydd pob dysgwr ym mhob un o bynciau'r cwricwlwm cenedlaethol ac addysg grefyddol. Os yw ysgolion yn dewis cofnodi a/neu adrodd ar gyrhaeddiad dysgwyr yn amlach, dylen nhw sicrhau bod eu systemau yn cynorthwyo dysgu effeithiol a lles athrawon/dysgwyr.

Gwybodaeth benodol am ddysgwyr, ar ffurf sylwadau athrawon ar gryfderau a meysydd i'w datblygu, sydd fwyaf tebygol o fod fwyaf ystyrlon a defnyddiol i ddysgwyr a'i rhieni/gofalwyr. Bydd hi'n bwysig bod ysgolion yn ei gwneud hi'n glir i rieni/gofalwyr sut maen nhw'n defnyddio'r wybodaeth yn seiliedig ar ddeilliannau/lefelau'r cwricwlwm cenedlaethol, gan danlinellu mai disgrifiadau cyffredinol o gyrhaeddiad, sy'n 'cyd-fynd orau', yw'r disgrifiadau lefel ac felly heb eu llunio i'w defnyddio'n aml i adrodd ar newidiadau mewn deilliannau rhifol.

Dylid trosglwyddo gwybodaeth asesu ansoddol a meintiol i roi gwybodaeth i athrawon ac ysgolion sy'n derbyn.

Adeg trosglwyddo, bydd ysgolion uwchradd am allu defnyddio'r wybodaeth asesu oddi wrth ysgolion cynradd fel y brif sail tystiolaeth ar gyfer cefnogi cynnydd pob dysgwr yn ystod y tymor cyntaf ym Mlwyddyn 7.

Ar gyfer y pynciau craidd (Cymraeg, Cymraeg ail iaith, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth), dylai ysgolion ddilyn y gofynion statudol ar gyfer cymedroli grŵp clwstwr, er mwyn sicrhau bod y safonau wedi'u deall gan bawb a bod gwybodaeth asesu gadarn ar gael. Dylai timau arwain ysgolion cynradd ac uwchradd gynorthwyo eu clwstwr trwy:

- neilltuo amser priodol ar gyfer cyfarfodydd cymedroli grŵp clwstwr
- sicrhau bod athrawon yn cynrychioli'r ysgol mewn cyfarfodydd clwstwr
- sicrhau bod penderfyniadau a deilliannau y cytunwyd arnyn nhw yng nghyfarfodydd y clwstwr yn cael eu gweithredu gan yr holl staff perthnasol.

Mewn clystyrau effeithiol, mae'r broses o drosglwyddo deilliannau/lefelau cwricwlwm cenedlaethol o Flwyddyn 6 i Flwyddyn 7 a sylwadau ansoddol cysylltiedig athrawon yn rhoi digon o wybodaeth i'r ysgolion uwchradd sy'n derbyn, allu asesu dysgwyr unigol yn gynnar. Dylai timau arwain/rheoli ysgolion sicrhau bod yr wybodaeth hon yn addas i'r diben ac yn cael ei defnyddio'n llawn.

Wrth drosglwyddo, dylai ysgolion hefyd sicrhau bod y trefniadau'n hylaw er mwyn trosglwyddo gwybodaeth asesu am bynciau allgraidd yn effeithiol. Byddai gwybodaeth gryno o ansawdd ynglŷn â sgiliau trosglwyddadwy trawsgwricwlaidd y dysgwyr yn arbennig o werthfawr i'r athrawon sy'n derbyn y dysgwyr.

## Darparu gwybodaeth reoli, i lywio'r gwaith o wneud penderfyniadau, ar gyfer arweinwyr, rheolwyr a llywodraethwyr ysgolion

Mewn ysgolion effeithiol, mae uwch dimau rheoli yn darparu arweinyddiaeth gadarn er mwyn sicrhau bod yr holl athrawon/adrannau yn cael canllawiau clir ar sut i ddefnyddio asesiadau i wella perfformiad dysgwr. Mae hyn yn pwysleisio pwysigrwydd arfer cyson ac ansawdd y gwaith asesu trwy'r ysgol gyfan. Mae'r targedau y cytunwyd arnyn nhw'n realistig ond yn heriol, a'r gwaith monitro ac adrodd ar gynnydd dysgwyr yn effeithiol.

Cynhelir cyfathrebu rhwng arweinwyr a rheolwyr ysgol ac athrawon dosbarth mewn amgylchedd lle dangosir parch ac ymddiriedaeth o'r ddwy ochr a lle bydd pawb yn gweithio tuag at yr un nod. Mae adroddiadau Estyn wedi cadarnhau bod yr amgylcheddau addysgu a

dysgu mwyaf effeithiol yn cynnwys cyfathrebu cryf a deinamig rhwng athrawon a dysgwyr. Dylai'r cyfathrebu effeithiol hwn hefyd gynnwys athrawon eraill, rheolwyr ysgol a llywodraethwyr ysgol, rhieni/gofalwyr dysgwyr, grwpiau clwstwr a theuluoedd o ysgolion.

Mae ysgolion effeithiol yn defnyddio systemau a threfniadau sydd wedi'u llunio i gadw, rhannu a gwneud defnydd da o wybodaeth briodol a chadarn. Rhaid i systemau ar gyfer casglu a dehongli gwybodaeth asesu sicrhau bod gwybodaeth ar gael yn hawdd ac yn ystyrlon i'r gynulleidfa darged.

At ddibenion gweinyddol ac fel dull cyfathrebu llaw-fer (e.e. ar gyfer systemau seiliedig ar TGCh), gall ysgolion amgodio gwybodaeth asesiad athrawon sy'n cael ei chasglu nawr ac yn y man. Gall hyn fod yn gysylltiedig â thystiolaeth o 'gyd-fynd orau' sy'n dod i'r amlwg mewn perthynas â'r disgrifiadau lefel. Er enghraifft, gellid cofnodi lefel ar waelod ystod y lefel, yn ddiogel oddi mewn iddi neu ar ei brig fel Lefel X–, Lefel X neu Lefel X+. Mae yna fanteision amlwg ar gyfer trosglwyddo data o fewn a rhwng ysgolion os yw meddalwedd TGCh yn defnyddio egwyddor gyffredin. Dyma'r dull codio bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei fabwysiadu felly wrth gysylltu â chyflenwyr masnachol systemau rheoli gwybodaeth.

Lle mae ysgolion yn dymuno cofnodi cyflawniad sy'n mynd tu hwnt i'r hyn a ddisgwylir tuag at darged y cytunwyd arno, gellid defnyddio symbolau megis + (cyflawniad sy'n mynd tu hwnt i'r hyn a ddisgwylir), a – (cyflawniad islaw'r disgwyl).

## Fel tystiolaeth am berfformiad mewn ac ar draws ysgolion ar gyfer awdurdodau lleol, Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r gymuned ehangach

### Asesu fel rhan o'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion

Yn unol ag athroniaeth y Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion (FfEY), rhaid i'r system addysg yn gyffredinol sicrhau ei bod yn canolbwyntio ar hawl pob person ifanc i gael profiadau dysgu o ansawdd uchel drwy gydol eu gyrfa addysgol. O dan y FfEY, dylid tracio cynnydd pob dysgwr o fewn ac ar draws lleoliadau addysgol. Mae strwythur o'r fath yn deillio o'r saith nod craidd ar gyfer pobl ifanc fel y nodwyd yn *Plant a Phobl Ifanc: Gweithredu'r Hawliau* (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2004).

Mae'n golygu y gellir monitro cynnydd dysgwr fel unigolyn, ac mae'n cael gwared ar y tensiwn o feirniadu perfformiad sefydliadol fel dull anuniongyrchol o feirniadu perfformiad dysgwr. Mae hefyd yn golygu y gellir asesu, cefnogi a herio amrywiadau rhwng ysgolion ac oddi mewn iddyn nhw, a pherfformiad awdurdodau lleol ond bob amser yng nghyd-destun perfformiad dysgwyr unigol o fewn ardal awdurdod lleol, yn hytrach na sefydliadau unigol.

Nod y FfEY yw cynorthwyo a herio ysgolion, awdurdodau lleol a Llywodraeth Cynulliad Cymru i adolygu systemau asesu yn rheolaidd, er mwyn sicrhau eu bod yn drwyadl, yn addas i'r diben, yn hylaw ac yn gynaliadwy.

Mae strategaethau ar gyfer manteisio i'r eithaf ar asesu yn allweddol ar gyfer hunanwerthuso trwyadl. Mae'n ffurfio elfen ganolog o Wella Perfformiad Ysgol, gan gysylltu'n agos ag elfen gwelliant ac atebolrwydd y FfEY.

Mae'r Themâu Craidd a'r Elfennau sy'n sail i'r FfEY yn cynnwys hunanwerthuso cadarn, defnyddio data a gwybodaeth reoli i nodi cryfderau a meysydd ar gyfer datblygu a'r angen i gydweithio a dysgu oddi wrth eraill. Mae angen dadansoddi canlyniadau a'u rhoi mewn cyd-destun er mwyn eu deall yn iawn ac er mwyn cymryd camau gweithredu priodol.

Dylai staff ysgolion a thimau arwain gydweithio i ddarparu asesu o ansawdd uchel. Yr hyn sy'n allweddol i wella ysgol a sicrhau atebolrwydd yw'r gallu i:

- bennu targedau heriol ond rhai y gall dysgwyr eu cyflawni
- gwneud defnydd trwyadl o ddulliau asesu ffurfiannol a chrynodol
- rhoi adborth i ddysgwyr
- defnyddio technegau dysgu ac addysgu effeithiol.

Ar lefel ranbarthol a chenedlaethol, mae'r data asesu crynodol yn darparu'r dystiolaeth mae awdurdodau lleol a Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei defnyddio i gefnogi ysgolion. Hefyd, dylid ei ddefnyddio i ddarparu her effeithiol i bob ysgol unigol i sbarduno gwelliannau ar draws y system gyfan.

Yng Nghymru, rydyn ni am i ganlyniadau asesiadau athrawon fod yn drwyadl, yn ddibynadwy ac yn amlwg yn gredadwy i bob cynulleidfa. Dyma pam mae'n hanfodol sicrhau bod safonau cenedlaethol yn cael eu defnyddio yn yr un modd ym mhob rhan o Gymru. Yng Nghyfnod Allweddol 3, mae trefniadau ar gyfer cymedroli adrannau pwnc yn allanol a dilysu polisïau ac arferion asesu ysgol gyfan yn allanol wedi'u llunio i sicrhau bod hynny'n digwydd. Mae'r trefniadau hyn fwyaf effeithiol ar dair lefel wrth i ysgolion, awdurdodau lleol a Llywodraeth Cynulliad Cymru weithio gyda'i gilydd. Yn 2010, bydd gwaith peilot ar draws Cymru yn ystyried y ffordd orau o ymestyn cymorth allanol o'r fath i Gyfnod Allweddol 2. Mae'r gwaith hwn yn defnyddio canfyddiadau ac argymhellion yn arolwg gwerthusol Estyn yn 2009 o asesiadau athrawon yn y pynciau craidd yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3.

Dylai ysgolion ac awdurdodau lleol sy'n manteisio i'r eithaf ar asesu, gan ddefnyddio'r dull sydd ynghlwm â'r canllawiau hyn, weld gwelliannau gwirioneddol yn neilliannau eu dysgwyr.

Mantesio i'r eithaf ar asesu 7–14

Ebrill 2010

Dogfen canllawiau
Rhif: 034/2010